FFAIR CAERDYDD

Awn i lawr i ffair Caerdydd
Dechre'n ffordd ar goriad dydd
Torf y gamlas yn amlhâi
Sŵn yr ysgraff yn crafu'r cei.

Clywais fod 'na arth rhyw bryd
Yno'n dawnsio ar y stryd
A'r dyfodol cewch ei gael
Mewn pêl wydr 'waith pa mor wael.

Prynais ruban glas i'm cariad
Caiff ei rhodd dan 'ole leuad
Dal ei llaw wrth deithio adre'
Clog y nos yn cuddio'i gruddie.

Ddowch chi efo ni, anghofiwn glas y glo
Ddowch chi efo ni, cawn rhyddid byr dros dro.

©Geraint Griffiths